OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 271 (Cy.34)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*6 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Chwefror 2010*
Yn dod i rym - -	*3 Mawrth 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62, 143(2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**3**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010, a deuant i rym ar 3 Mawrth 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

2.—(1) Diwygir Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**4**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Atodlen—

(a) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Rateable Value"—

(i) yn lle "2005", rhodder "2010";

(ii) yn lle "2003", rhodder "2008"; a

(iii) hepgorer y geiriau o "Thus" i "offices".

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.
(**4**) O.S. 1993/252, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (Cy.303), 2008/7 (Cy.3) a 2008/3075 (Cy.269).